

## CYMRAEG

Mae defaid wedi cael eu ffermio yng Nghymru ers tua 5,000 o flynyddoedd, ac mae'r brîd Defaid Mynydd Cymreig wedi'i ddatblygu dros filoedd o flynyddoedd gan ein cyndeidiau i weddu i hinsawdd a thopograffeg arbennig yr ucheldir sy'n dominyddu llawer o'n gwlad. Mae mwy na dwy ran o dair o Gymru yn cynnwys glaswelltir parhaol a thir pori garw - ardaloedd lle mae mathau eraill o amaethyddiaeth, megis tyfu cnydau masnachol, yn amhosibl.

Yn ystod y miloedd o flynyddoedd hynny, mae ffermio defaid wedi dod yn rhan gynhenid o amgylchedd, diwylliant ac economi cymunedau gwledig Cymru, gan greu tirwedd o gynefinoedd unigryw sy'n rhan annatod o Gymru a Chymreictod. Yn ucheldir Cymru, ffermio defaid yw'r prif ddiwydiant amaethyddol o bell ffordd, gan gyfrannu'n sylweddol at gyfanswm allbynnau diwydiant defaid Cymru sy'n werth mwy na £300 miliwn ac yn cyflogi cyfran fawr o'r 50,000 o bobl sy'n gweithio ar ffermydd Cymru.

Yn ogystal â chyflogi unigolion fel cneifwyr a chontractwyr amaethyddol yn uniongyrchol, mae ein diwydiant defaid hefyd yn cefnogi miloedd o rai eraill mewn diwydiannau perthynol megis masnachwyr amaethyddol, milfeddygon, mecanyddion a marchnadoedd da byw. Mae ffigurau'r Cyfrifiad Cenedlaethol yn cyfleu patrwm – gwelir yn yr ardaloedd lle mae nifer uchel o ddefaidbod mwy na chwarter y gyflogaeth mewn amaethyddiaeth.

Mewn cymunedau o'r fath, y Gymraeg yn aml yw'r brif iaith, gyda'r gyfran yn y gymuned amaethyddol sy'n defnyddio'r iaith ar yr aelwyd ac o ddydd i ddydd yn agosáu at 100%. Mae cyfran y bobl sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg yn uwch nag yn unrhyw gategori cyflogaeth Cymraeg arall, a mwy na dwbl cyfran gyffredinol y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn dangos y cysylltiad dwfn rhwng diwylliant hynafol Cymru, amaethyddiaeth a ffermio defaid, ac mae celf, rhyddiaith a barddoniaeth Gymraeg, hynafol a modern, yn frith o gyfeiriadau at ffermio defaid mynydd Cymreig yn ei chynefin.

Fel ceidwaid yr etifeddiaeth hon, mae Cymdeithas Defaid Mynydd Cymreig wedi'i dychryn yn gynyddol dros y blynyddoedd diwethaf ynghylch yr ymlediad o ymosodiadau cyfeiliornus ac anwybodus ar ddiwydiant da byw Cymru a ffermio defaid mynydd yn arbennig – ymosodiadau sy'n bygwth y diwylliant, yr economi ac amgylchedd y Gymru wledig.

Dadl allweddol a gyflwynwyd gan rai yw bod ffermio defaid mynydd yn parhau i achosi difrod ecolegol eang ar ucheldir Cymru. Er hynny, mae astudiaethau o niferoedd defaid yng Nghymru wedi datgelu, er bod niferoedd wedi amrywio, fod lefelau pori mewn ardaloedd mynyddig bellach ar lefelau tebyg neu is na'r hyn oeddent dros ganrif yn ôl.

Mae cofnodion eraill yn awgrymu bod y cynnydd mwyaf sylweddol yn niferoedd defaid Cymru wedi digwydd mewn ardaloedd a ddefnyddiwyd ar un adeg ar gyfer cynhyrchu â'r, gyda rhai plwyfi di-fynyddig wedi gweld cymaint â naw gwaith o gynnydd yn nifer y defaid ers y 1890au, sy'n adlewyrchu'r symud odyfu cnydau i gynhyrchu glaswellt.

Mewn llawer o ardaloedd, mae lleihad mewn pori wedi arwain at ddirywiad amgylcheddol sylweddol, gydag effeithiau andwyol arbennig ar rywogaethau adar sy'n dibynnu ar ardaloedd yn cael eu pori'n briodol, ac effeithiau cynyddol fel gordyfiant gwellt a all arwain at danau gwyllt niweidiol ar adegau hollbwysig i adar sy'n nythu, yn ogystal â difrod i fawndiroedd.

Mae rhai'n dadlau y dylai'r math o ardaloedd lle mae Defaid Mynydd Cymreig yn cael eu cadw a'u ffermio gael eu trosglwyddo i goetir neu ail-wylltio er mwyn cynyddu bioamrywiaeth; ac eto ni all llawer o'r rhywogaethau sydd dan y bygythiad mwyaf sy'n byw ar dir fferm o'r fath fyw mewn coetir ac maent yn dibynnu ar ddefaid yn pori i gynnal amgylcheddau priodol. Mae ail-wylltio yn cynyddu cynefin addas ar gyfer trogod ac mae Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU wedi gweld cynnydd o un flwyddyn i'r llall mewn heintiadau trogod a chlefyd leim (*lyme disease*) ers dechrau cadw cofnodion; cynnydd o 40% yn Haf 2023 o gymharu â 2022. Mae gostyngiad pori hefyd yn golygu y gall llwybrau cerdded droi'n anaddas oherwydd problemau cynefinoedd a draeniad effeithio ar fynediad i nwyddau cyhoeddus, felly bydd llai o ardaloedd mewn Cefn Gwlad Agored yn hygyrch i ddefnydd hamdden am ddim gan y cyhoedd. Risg i iechyd ein cenedl.

Mewn gwirionedd, mae tystiolaeth o bob rhan o'r byd yn dangos y difrod ecolegol aruthrol a achosir gan dynnu amaethyddiaeth o ecosystemau lle mae ffermio wedi bod yn ymarfer ers miloedd o flynyddoedd. Yn 2014, nododd meta-ddadansoddiad o 276 o bapurau gwyddonol gan Brifysgol Stockholm fod 65% o astudiaethau o effeithiau gadawiad tir fferm yn Ewrop yn adrodd effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, tra bod dadansoddiad yn 2019 gan yr elusen Plantlife wedi canfod o blith 112 o rywogaethau planhigion fasgwlaidd Mewn Perygl a Pherygl Critigol yn y DU, y bydd 84 (75%) yn dirywio neu hyd yn oed yn diflannu os yw tir fferm yn cael ei adael.

Canfu arbrawf pori hirdymor ar ystâd Glen Finglas yn Ucheldir yr Alban, a oedd yn astudio effaith dwysáu (treblu nifer y defaid), gadael (cael gwared ar ddefaid) ac arallgyfeirio pori (amnewid defaid yn rhannol gan wartheg) fod mwy o bori, ac i raddau llai, cafodd cyflwyno gwartheg fwy o effaith gadarnhaol ar amrywiaeth rhywogaethau o gymharu â chael gwared ar ddefaid. Hynny, tra bod adroddiad Sefyllfa Adar yng Nghymru 2018 yr RSPB yn cydnabod bod "...y gylfinirod yn dangos ffafriaeth at gynefinoedd â dwysedd llystyfiant is a dim ond gorchudd brwyn cymedrol...mae dwyseddau da byw hefyd wedi lleihau'n sylweddol o gymharu â lefelau hanesyddol. Felly, mae'n debygol iawn y bydd amodau cynefin wedi dirywio ar gyfer y gylfinir dros y degawdau diwethaf." Mae cynlluniau a pholisïau amaeth-amgylchedd diweddar wedi canolbwyntio ar leihau a dileu pori yn gyfan gwbl ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar adar sydd angen uchder glastir isel i oroesi. Mae defaid yn rhan o'r ateb ar gyfer bodolaeth gyfunol y Fran Goes Goch (mae 75% o boblogaeth Prydain yng Nghymru) a Mwyalchen y Mynydd sy'n dychwelyd bob haf i fridio. (Adroddiad Ymchwil NatureScot1291)

Mae ymchwil gan IBERS, Cyswllt Ffermio a Hybu Cig Cymru wedi dangos yn gyson bod Cig Oen Mynydd Cymreig sy'n cael ei fwydo ar laswellt yn sgorio ansawdd uchel, uchel mewn Omega3, asidau brasterog da a phroffil lipid ar gyfer iechyd corfforol yn enwedig o gymharu â chig oen sy'n cael ei fwydo â dwysfwyd. Er bod gostyngiad wedi bod mewn cig oen a fwyteir yn y DU dros y degawdau diwethaf, mae'r farchnad ar gyfer cig oen Cymru yn y DU ac yn fyd-eang yn parhau i fod yn enfawr, a rhagwelir y bydd y defnydd o gig byd-eang yn cynyddu 1.4% y flwyddyn. Rhaid cofio mai'r brid Defaid Mynydd Cymreig a'i nodweddion sy'n gosod sylfaen y diwydiant defaid yng Nghymru. Bydd y polisïau a'r pwysau presennol sy'n taseilio cynhyrchiant defaid Cymru, ac yn arbennig Defaid Mynydd Cymreig, yn rhoi hwb i gynhyrchiant mewn gwledydd sydd â llawer llai o amddiffyniadau amgylcheddol ac sy'n meddu ar safonau lles is, gan arwain at fwy o fewnforion, taseilio diogelwch bwyd y DU, ystod o effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth Cymru ac ôl-ffeithiau difrifol ar economi a diwylliant y Gymru wledig.

## ENGLISH

Sheep have been farmed in Wales for around 5,000 years, and the Welsh Mountain breed has been developed over that time by our forefathers to suit the particular climate and topography of the uplands which predominate much of our country. More than two thirds of Wales comprises permanent grassland and rough grazing - areas where other forms of agriculture, such as growing commercial crops, are impossible.

During those thousands of years, sheep farming has become an intrinsic part of the environment, culture and economy of Wales' rural communities, creating a landscape of unique habitats that are synonymous with Wales and Welshness. In Wales' uplands, sheep farming is by far the dominant agricultural industry, contributing significantly to total Welsh sheep industry outputs valued at more than £300 million and employing a large proportion of the 50,000 people who work on Welsh farms.

As well as directly employing individuals such as shearers and agricultural contractors, our sheep industry also supports thousands of others in allied industries such as agricultural merchants, vets, mechanics and livestock markets, and National Census figures have shown that in vast areas of Wales where sheep farming predominates, more than a quarter of employment is in agriculture.

In such communities, Welsh is often the predominant language, with the proportion in the farming community who use the language in the household and on a daily basis approaching 100%: the proportion of people working in agriculture in Wales who speak Welsh is higher than in any other Welsh employment category, and more than double the overall proportion of Welsh speakers. This demonstrates the deep link between Wales' ancient culture, agriculture and sheep farming, and Welsh art, prose and poetry, both ancient and modern, are littered with references to upland sheep farming.

As the custodians of this inheritance, the Welsh Mountain Sheep Society has grown increasingly alarmed over recent years at the proliferation of misguided and ill-informed attacks on the Welsh livestock industry and hill sheep farming in particular - attacks that threaten the culture, economy and environment of rural Wales.

A key argument put forward by some is that sheep farming continues to cause widespread ecological damage in Wales' uplands. Yet studies of sheep numbers in Wales have revealed that while numbers have fluctuated, levels of grazing in mountainous areas are now at levels similar to or lower than what they were more than a century ago.

Other records suggest that the most significant increases in Welsh sheep numbers have occurred in areas once used for arable production, with some non-mountainous parishes seeing as much as a nine-fold increase in sheep numbers since the 1890s, reflecting the replacement of crop cultivation with grass production.

In many areas, declines in grazing have led to significant environmental degradation, with particular adverse effects for bird species that rely on areas being appropriately grazed, and knock on impacts such as molinia overgrowth leading to damaging wildfires at what are critical times for nesting birds, as well as damage to peatlands.

Some argue that the type of areas where Welsh Mountain Sheep are farmed should be given over to woodland or rewilding in order to increase biodiversity; yet many of the most threatened species which inhabit such farmland cannot live in woodland and rely on sheep grazing to maintain appropriate environments.

[www.welshmountainsheep.cymru](http://www.welshmountainsheep.cymru)

Rewilding increases suitable habitat for ticks and the UK Health Security Agency have seen year on year increases in tick infections and Lyme disease since records began; a 40% increase in Summer 2023 compared to 2022. Grazing reduction also means that access for public goods can be impacted due to unsuitable walking routes due to habitat and drainage issues, therefore less areas in Open Country will be accessible to public free recreational use.

In fact, evidence from around the world of the ecological damage caused by the removal of agriculture from ecosystems where farming has been practised for thousands of years is overwhelming. In 2014, a meta-analysis of 276 scientific papers by Stockholm University reported that 65% of studies of the impacts of farmland abandonment in Europe reported negative impacts on biodiversity, while a 2019 analysis by the charity Plantlife found that of 112 Critically Endangered and Endangered UK vascular plant species, 84 (75%) will decline or even disappear if farmland is abandoned.

A long-term grazing experiment on the Glen Finglas estate in the Scottish Highlands, studying the impact of intensification (tripling sheep numbers), abandonment (removal of sheep) and grazing diversification (partial replacement of sheep by cattle) found that increased grazing and, to a lesser extent, the introduction of cattle had a greater positive impact on species diversity compared with the removal of sheep, while the RSPB's 2018 State of Birds in Wales report acknowledges that *"...curlews show a preference for habitats with lower vegetation densities and only moderate rush cover...livestock densities have also greatly reduced compared to historic levels. Therefore, it is highly likely that habitat conditions will have deteriorated for curlews over recent decades."* Recent agri-environment schemes and policies have focused on the reduction and total elimination of grazing at certain times of the year. This has had a detrimental effect on birds that need a low sward height to survive. Sheep are part of the solution for the combined existence of the Cough (75% of the British population being in Wales) and the Ring Ouzel which returns every summer to breed. (NatureScot ResearchReport1291)

Research from IBERS, Farming Connect and Meat Promotion Wales have consistently shown that grass-fed upland Welsh Mountain Lamb scores high quality, high in Omega3, good fatty acids and lipid profile for human health especially compared to concentrated fed lamb. While there has been a decline in UK sheep meat consumption over recent decades, the market for Welsh lamb both in the UK and globally remains vast, and with global meat consumption forecast to grow by 1.4% a year. We must remember that the Welsh Mountain Sheep breed and its characteristics sets the foundation of the sheep industry in Wales. The current policies and pressures which undermine Welsh sheep production, and in particular Welsh Mountain Sheep, will simply boost production in countries with far fewer environmental protections and lower standards of welfare, leading to more imports, the undermining of UK food security, a range of adverse impacts for Welsh biodiversity and severe repercussions for the economy and culture of rural Wales.